TIRLUN

# PAM MAE GOLEUDAI YN BWYSIG?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn archwilio ble mae goleudai i'w cael yn Nhirwedd Cenedlaethol Llŷn. Maent yn ystyried goleudai sydd ar waith, yn gwneud ymchwil i ddarganfod mwy amdanynt ac yn defnyddio eu syniadau i ysgrifennu am ddiwrnod yn eu bywyd mewn goleudy sydd ar waith ym 1966. Mae dysgwyr yn ystyried sut mae goleudai'n gweithio, yn archwilio'r defnydd o olau i arwyddo ac yn defnyddio cylchedau trydan i adeiladu model o oleudy. Maent yn ystyried dyluniad a nodweddion goleudai ac yn cael adborth gan gymheiriaid ar yr agweddau hyn ar eu model.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Dulliau o wneud model o oleudy, bylbiau, batrïau, moduron, cardbord, defnyddiau wedi'u hailgylchu, megis tiwbiau creision, cwpanau papur a photeli plastig, glud a phaent.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Er mwyn cyrchu'r raddfa ar Google maps, cliciwch ar 'View larger map'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BLE MAE EIN GOLEUDAI LLEOL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried ble mae'r goleudai ar Benrhyn Llŷn ac yn defnyddio mapiau a phrofiad uniongyrchol i archwilio ymhellach i oleudai sydd ar waith ar Benrhyn Llŷn.

## Sgrîn 3

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae goleudai ar Benrhyn Llŷn neu gerllaw? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa oleudai ydych chi wedi ymweld â nhw?
- Pa oleudai sy'n dal i weithio? Sut ydych chi'n gwybod?
- Mae rhai goleudai gerllaw Penrhyn Llŷn nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach. Pa rai o'r rhain ydych chi'n gwybod amdanynt?
- Pam ydych chi'n meddwl nad yw rhai goleudai'n cael eu defnyddio mwyach?

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu'r map sy'n dangos y goleudai sydd ar Benrhyn Llŷn neu gerllaw ac i ateb y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa oleudy sydd agosaf at yr ysgol?
- Sut gallwch chi gyfrifo'r pellter o'r ysgol i'r goleudy agosaf?

## Sgriniau 5-6

Gofynnwch i barau o ddysgwyr ddarganfod pa oleudai ar Benrhyn Llŷn sy'n dal i weithio a chofnodi eu henwau ar y sgrîn. Gwahoddwch y dysgwyr i ddewis un o'r goleudai ac i chwilio ar-lein i ddarganfod mwy amdano, gan ddefnyddio'r cwestiynau hyn i'w helpu.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut olwg sydd ar y goleudy?
- Ble mae'r goleudy?
- Pryd yr adeiladwyd y goleudy?
- A oes criw yn gweithio yn y goleudy? Os na, pryd oedd y criw olaf yn gweithio yn y goleudy?
- Allwch chi ymweld â'r goleudy? Os y gallwch, sut allwch chi deithio iddo o'r ysgol?

Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu eu cerdyn ffeithiau a'i ddarlunio er mwyn dweud wrth eraill am y goleudy.

## Sgriniau 7-9

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n cael eu cludo i oleudy. Gwahoddwch nhw i lawrlwytho'r tabl ar y sgrîn, dod o hyd i'r goleudy ar y map a defnyddio'r map i gwblhau'r tabl. Dylai dysgwyr gadw'r tabl ac yna mynd allan i gasglu mwy o wybodaeth am y goleudy.

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y tabl drachefn a cheisio ei gwblhau gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd o'u hymweliad â'r goleudy.

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar y tabl gorffenedig a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor dda oeddech chi am ddarllen y map er mwyn darganfod atebion i'r cwestiynau?
- Pa gwestiynau oeddech chi ddim yn gallu eu hateb, wedi i chi ddarllen y map? Pam?
- Pa gwestiynau ydych chi'n dal ddim yn gwybod yr ateb iddynt? Pam? Sut allwch chi ddarganfod yr atebion?
- Beth arall hoffech chi ei wybod am y goleudy? Sut allwch chi ddarganfod hyn?

## Sgrîn 11

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y wybodaeth a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod y tanau ar gyfer tywys morwyr wedi'u hadeiladu ar ben bryniau?
- O beth yr adeiladwyd y llwyfannau tân cynnar hyn, yn eich meddwl chi? Pam?
- Pam ydych chi'n meddwl nad ydym yn defnyddio tân ar gyfer goleudai mwyach?

## Sgriniau 12-13

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth a gwylio'r fideo [The isolated life of lighthouse families in 1966] (tua pedair munud a hanner o hyd) a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl y byddai gwersi ysgol yn cael eu haddysgu trwy ddulliau gohebol?
- Sut mae'r bobl yn cyrraedd yr ynys? Beth yw eich barn am ddiogelwch y dull hwn? Pam?
- Sut mae'r bobl yn cyrraedd y goleudy, unwaith y byddan nhw ar yr ynys? Beth yw eich barn am ddiogelwch y dull hwn? Pam?
- Sut fywyd fyddai ceidwad y goleudy a'i deulu yn ei gael, yn eich tyb chi? Pam?

### Sgrîn 14

Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu byw mewn goleudy oedd yn gweithio ym 1966 ac ysgrifennu dyddiadur neu flog yn son am un diwrnod yn eu bywyd.

### Sgrîn 15

Gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar y dasg gyfan trwy gwblhau o leiaf un o'r ymadroddion ar ddechrau brawddegau a rhannu eu hymadroddion cyflawn gyda'r dosbarth.

TASG 2

## SUT MAE GOLEUDAI YN GWEITHIO?

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn eu galluogi i archwilio nodweddion goleudai a rhoi'r cyfle iddyn nhw adeiladu model o oleudy.

### Sgriniau 3-4

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth, edrych ar y delweddau a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor uchel oedd y golau o'r môr? Beth yw'r mesuriad hwn mewn metrau?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng uchder yr hen oleudy a'r goleudy newydd? Sut wnaethoch chi gyfrifo hyn?
- Pa siâp oedd yr ystafelloedd yn y goleudy? Pam y gallai hyn greu anhawster i rywun sy'n byw yno?

- Pam ydych chi'n meddwl bod goleudai wedi'u hadeiladu yn siâp silindr yn hytrach nag yn debycach i siâp bocs?
- Faint o risiau ydych chi'n meddwl oedd yn arwain o'r fynedfa i'r ystafell lusern? Sut wnaethoch chi amcangyfrif hyn?

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i wylio'r fideo a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwch chi ei weld yn y fideo?
- Sut olwg fyddai ar y golau i longau pell i ffwrdd? Pam?
- Sut y cyflawnir yr effaith golau hwn, yn eich tyb chi?

## Sgriniau 6-7

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth am ddefnyddio golau i arwyddo ac archwilio'r map yn Lighthouses and lightvessels - Trinity House (Saesneg yn unig) i weld y gwahanol nodweddion sydd i'r goleudai gerllaw Penrhyn Llŷn, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae nodweddion goleudai gerllaw Penrhyn Llŷn yn wahanol i'w gilydd?
- Beth arall ddysgoch chi am y goleudai nad oeddech chi'n eu gwybod o'r blaen?

## Sgriniau 8-9

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n adeiladu model o oleudy, gan ddarparu bwlb, modur, gwifrau a batrïau iddyn nhw wneud hynny. Gofynnwch iddynt ymarfer adeiladu'r gylched(au) y bydd eu hangen arnynt ar gyfer eu goleudy a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Gan feddwl am nodweddion goleudai, sut y byddwch yn sicrhau mai pelydr sengl yw'r golau, yn hytrach na golau cyson?
- Sut gallwch chi newid eich cylched neu gylchedau fel bod gennych un pelydryn o olau?

## Sgrîn 10

Dywedwch wrth y dysgwyr bod angen iddynt ystyried maint eu goleudy; y defnyddiau y byddant yn eu defnyddio i'w adeiladu a sut y bydd yn cael ei beintio neu ei liwio.

Darparwch eitemau wedi'u hailgylchu, megis poteli plastig, cardbord, tiwbiau creision, plastig clir ac ati a'u hannog i edrych ar y fideos hyn am syniadau:

Light house model (dros 10 munud o hyd)

DIY How to make a lighthouse (dros 7 munud o hyd)

How to make a Paper Cup Lighthouse (tua 2 funud o hyd)

Gwahoddwch y dysgwyr i ddrafftio diagram o'u goleudy, gan ddangos ei ddimensiynau, y defnyddiau a'i ddyluniad allanol.

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr adeiladu eu goleudy, gan gadw at y cynllun drafft lle bo modd, ond ei newid os nad yw'n gweithio. Gwahoddwch nhw i ail-lunio cynllun o'r goleudy, gan ddangos yr holl ddimensiynau a'r defnyddiau. Yna, dylent nodi nodweddion eu goleudy, megis cyflymder y golau sy'n troi a'i ddyluniad allanol.

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu goleudy, ei gynllun a'i nodweddion ag eraill a gofyn iddyn nhw roi adborth ar y canlynol:

- Dau beth am eich model o oleudy sydd yn dda, yn eu tyb nhw, gan ddweud pam eu bod yn dda.
- Un peth a allai fod yn well am eich goleudy, gan ddweud pam y gallai fod yn well.